# YSGOL SYR HUGH OWEN
# Caernarfon

**Cylchlythyr y Pennaeth, NADOLIG 2018**
***Newsletter from the Head, CHRISTMAS 2018***

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd tymor prysur a llwyddiannus arall yng nghalendr Ysgol Syr Hugh Owen. Mae'r holl weithgareddau wedi bod yn llwyddiannus ond hoffwn rannu trosolwg gyda chi o'r rhai mwyaf nodweddiadol. Y tymor hwn, rydym wedi:

- cynnal Ocsiwn Addewidion y gymdeithas rieni ac athrawon (Ffrindiau Syr Hugh) i godi arian at Gronfa'r Ysgol a oedd yn llwyddiant ysgubol;
- Sefydlu Corlan yn yr ysgol er mwyn ymateb i angenion rhai o ddisgyblion mwyaf bregus yr ysgol;
- cynnal gweithdai adolygu ac anelu'n uwch Learning Performance llwyddianus iawn gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 11;
- cyflwyno system Class Charts i gofnodi gwaith cartref yn electroneg a chryfhau'r cyswllt ysgol/cartref;
- croesawu sawl aelod o'r cyhoedd, gwleidyddion, pobl busnes ac arbenigwyr yma i gyfoethogi profiadau ein disgyblion;
- trefnu gweithgareddau allgyrsiol amrywiol ar gyfer disgyblion o bob oedran e.e.ymweliadau i wylio gemau pêl-droed i Everton a Manceinion, i wylio gemau rygbi i Gaerdydd, i weld Synagog yn Lerpwl, ac i wylio pantomeim yn Llandudno;
- cael clywed y côr, y parti cerdd dant, y band pres, y band samba ac unigolion di-ri yn rhannu doniau Syr Hugh yn gyhoeddus ac yn cryfhau ymdeimlad cymunedol yr ysgol wrth iddynt gael gwahoddiad i ddiddanu mewn amrywiol achlysuron, e.e. yn agoriad swyddogol Gorsaf drenau newydd Rheilffordd Eryri, yng nghynhadledd Penaethiaid Gogledd Cymru yn Neuadd P.J. Bangor, yn arwain y seremoni goleuo goleuadau Nadolig Caernarfon, yn canu carolau yn y Galeri, y prif ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Cofio ar y Maes ac wrth gystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant, ym Mlaenau Ffestiniog;
- casglu arian at achosion da niferus gan gynnwys Plant Mewn Angen, Tŷ Gobaith a CLIC Sargent;
- cynnal Eisteddfod Ysgol a chyngerdd Sêr yr Eisteddfod arbennig iawn; a
- chael hwyl wrth godi arian trwy weithgareddau hwyliog megis y Cwis Staff a'r Bŵt Camp Siôn Corn.

*Dear Parent/Guardian,*
*Here we are at the end of another busy and successful term at Ysgol Syr Hugh Owen. All the activities have been very successful but I wish to share with you an overview of the most characteristic events. This term we have:*

- *held the parents and teachers association (Friends of Syr Hugh) Auction of Promises the to raise money for the School Fund which was a huge success;*
- *established a Corlan (Safe Haven) at school to respond to the needs of some of the school's most vulnerable pupils;*
- *arranged very successful Learning Performance revision and aiming higher workshops with all Year 11 pupils;*
- *introduce a Class Charts system to record homework electronically and strengthen the school / home contact;*

- *welcomed several members of the public, politicians, business people and experts here to enrich the experiences of our pupils;*
- *organised various extra-curricular activities for pupils of all ages, e.g. visits to watch football games at Everton and Manchester, to watch rugby games in Cardiff, to see a Synagogue in Liverpool, and to watch a pantomime in Llandudno;*
- *heard the choir, the cerdd dant party, the brass band, the samba band, and the numerous individuals share the talents of Syr Hugh in public and strengthen the community's sense of community as they are invited to entertain on various occasions, e.g. at the official opening of the new Snowdonia Railway Station, at the Heads of North Wales conference at P.J Hall. Bangor, at the Caernarfon Christmas lights lighting ceremony, singing carols in the Galeri, the head pupils taking part in the Remembrance Sunday service on the Maes and competing at the Cerdd Dant Festival, in Blaenau Ffestiniog;*
- *collected money for many good causes including Children In Need, Tŷ Gobaith and CLIC Sargent;*
- *held a very special Eisteddfod and Eisteddfod Stars concert; as well as*
- *having fun fundraising through fun activities such as the Staff Quiz and the Santa Boot Camp.*

**Ysgol Syr Hugh Owen yn ysgol arloesi Llywodraeth Cymru**
**- datblygiadau diweddaraf**
***Ysgol Syr Hugh Owen, a Welsh Government pioneering school***
***- recent developments.***

Fel y gwyddoch, mae Ysgol Syr Hugh Owen wedi ei dewis fel un o Ysgolion Arloesi Llywodraeth Cymru, a dros y misoedd diwethaf mae athrawon yr ysgol wedi bod yn gweithio'n galed ar ddatblygu fframwaith newydd i'r cwricwlwm fydd yn datblygu addysg yn gydlynus ac yn darparu profiadau newydd i ddysgwyr yn Ysgol Syr Hugh Owen. Prif ffocws ein gwaith ar hyn o bryd yw datblygu Cwricwlwm Blwyddyn 7 ac 8, gyda ffocws benodol ar gwricwlwm Iechyd a Lles. Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, a Gwasanaeth Gwella Ysgolion – GwE. O ganlyniad, rydym wedi cynllunio cwricwlwm traws-gwricwlwaidd arloesol arbennig a fydd yn cael ei gyflwyno i holl ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 yn ystod yr hanner tymor nesaf.

*As you know, Ysgol Syr Hugh Owen has been selected as one of the Welsh Government's Pioneer Schools. Over the last few months, teachers at the school have been working on developing a new framework for the curriculum which will develop a coherent and unified approach to pupils work at Ysgol Syr Hugh Owen. Our main focus at present is the Year 7and 8 Curriculum development with emphasis on Health and Well-Being. We have been working very closely with Welsh Government, and GwE – the School Improvement Services. As a result, we have developed a pioneering cross-curricular curriculum which will be presented to all year 7 and 8 pupils during the next half term.*

**Gwisg Ysgol / School Uniform**

Hoffwn yn gyntaf, ddiolch i'r holl rieni sydd wedi bod yn cefnogi'r ysgol trwy sicrhau bod y disgyblion yn mynychu'r ysgol yn eu gwisg ysgol gywir yn ddyddiol. Carwn atgoffa pob rhiant y byddwn yn disgwyl y safon uchaf o wisg ysgol gan bawb o Ionawr ymlaen a byddwn yn gweithredu'n gyson a theg i sicrhau hyn. Diolchaf i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Cysylltwch â'r ysgol petai unrhyw anhawster yn codi wrth geisio prynu gwisg. Diolch am eich cydweithrediad.

*Firstly, I would like to thank all the parents who have shown their continued support for the school by ensuring that the pupils attend school daily dressed in their full school uniform. I must stress that we expect the highest standards of uniform from all pupils in January and we will endeavour to ensure*

*that this rule is adhered to in a fair and consistent manner. Please contact us should you need any assistance in buying school uniform. I thank you in advance for your support.*

**Cinio Ysgol di-arian a School Gateway/ *Cashless School Dinners and School Gateway***

Rydym wedi rhannu llythyr gyda'r holl ddisgyblion yn egluro ein bwriadau i fynd yn Ysgol Cinio Ysgol di-arian o fis Mawrth ymlaen a gofynnwn yn garedig i chi ymgyfarwyddo gyda'r wybodaeth cyn hynny os gwelwch yn dda. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio system School Gateway wrth gasglu unrhyw daliadau o fis Ionawr ymlaen ac i gyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid drwy neges destun. A allech chi felly, ddilyn y cyfarwyddiadau ar y daflen arweiniad a rennir gyda'r holl ddisgyblion a fydd yn eich galluogi i dderbyn yr holl wybodaeth gyfredol yn ogystal â thalu am weithgareddau neu wersi offerynnol ar lein.

*We have shared a letter with all the pupils explaining our intentions to become a Cashless School Lunch School from March onwards and we kindly ask you to familiarise yourself with the information before then please. We also intend to use the School Gateway system when collecting any payments from January onwards and to communicate with parents and guardians by text. Could you therefore please follow the instructions on the guide sheet shared with all pupils which will enable you to receive all the up to date information as well as pay for school activities and instrumental lessons on line.*

**Dyddiadau Pwysig i'r dyddiadur / *Important dates for the diary***

Rhagfyr 21ain/ December 21st – Diwedd tymor / End of term
Ionawr 7fed/ 7thof January - Ysgol ar agor i staff a disgyblion / School open for staff and pupils
Ionawr 22ain/ January 22nd – Noson Rieni Dewisiadau Blwyddyn 9/ Year 9 Options Parents Evening
Chwefror 19 / February 19th - Noson Dewisiadau bl11 / Year 11 Options Evening

25/02/19 –01/03/19 - Gwyliau Hanner Tymor/ Half Term Break

**Neges bwysig i ddisgyblion a rhieni blynyddoedd 10-12 / *Important message for Year 11-12 pupils and parents***

Mae presenoldeb yn allweddol ar gyfer llwyddiant TGAU, nodaf y dyddiadau canlynol er mwyn cynorthwyo pawb i sicrhau na fydd tarfu ar gyfnodau arholi ac asesu. / *Attendance is critical to reaching potential at the end of year 11, to share some key dates regarding assessment and examinations next term.*

Ionawr 8fed/ January 8th - Ffug arh. ymarferol Gwydd bl11 / Science Prac for yr11
Ionawr 9fed / January 9th - Arholiad Saesneg Llenyddiaeth i fl10 a rhai disgyblion bl11 sy'n ail sefyll English exam (resit) for yr10/11 (bore/morning)
Ionawr 10fed / January 10th - Arh. Iechyd a Gofal / Health & Social exam
Ionawr 14/ January 14th- Arh. Uned 1 Llên Gymraeg / Welsh Literacy exam - Unit 1
Ionawr 21/ January 21st - Arh. Ymarferol Gwyddoniaeth bl11 / Science Prac for yr11 (pawb/everybody)
Ionawr 23/January 23rd - Arh Mewnol bl10 / Internal Exam for yr10
Ionawr 28 / January 28th - Arh Mewnol bl12 / Internal Exam for yr12
Ionawr 31 / January 31st - Arh. Ymarferol Gwyddoniaeth bl11 / Science Prac yr11 - (Pawb/everybody)
Chwefror 4ydd / February 4th - Arholiad mewnol bl9 / Internal exam for yr9

Bydd rhagor o ddyddiadau allweddol yn cael eu rhannu gyda chi yn fuan / Other key dates will be shared with you soon.

Diolch am eich cefnogaeth parod. Cofiwch am twitter/Facebook am y newyddion diweddaraf a bydd ein rhifyn diweddaraf o gylchgrawn Seren Syr Hugh ar gael ar ein gwefan i'ch sylw. / *Thank you for your continued support. Please follow us on twitter/Facebook for all the latest news and visit our school website for a read of the latest Seren Syr Hugh magazine.*

❄ *Dymuniadau gorau am Nadolig dedwydd a heddychlon a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd*
*Best wishes for a peaceful and prosperous Christmas and a Happy New Year to you all* ❄

**Mrs Rh. Parry Jones B.A. MAdd**
Pennaeth Mewn Gofal/ *Head in Charge*